**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

## ADRODDIAD GWEINIDOG Y CYNULLIAD I'R PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES AR 21 MAWRTH 2001

Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y materion penodol y maent wedi gofyn i mi adrodd yn ôl arnynt ers fy adroddiad diwethaf ar 14 Chwefror. Yn Atodiad B ceir rhestr o'm hymrwymiadau pennaf ers yr adroddiad diwethaf.

### 1. CYNLLUNIAU PEILOT AAA RHANBARTHOL

Yn dilyn cyflwyniadau oddi wrth y 3 cynllun peilot AAA rhanbarthol i'r Pwyllgor ar 17 Ionawr, mae swyddogion wedi bod yn bwrw ymlaen gyda ffafriaeth y Pwyllgor am gyflwyno dull strategol cenedlaethol o gynllunio dapariaeth AAA ledled Cymru. Ar y cyfan mae'r ymatebion cychwynnol oddi wrth yr awdurdodau sydd ynghlwm wrth y prosiect wedi bod yn gadarnhaol ond mae angen cynnal trafodaethau pellach. Un o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd yw sefydlu Pwyllgor Llywio o dan arweiniad y Cynulliad gyda strwythur rhanbarthol yn cael ei ddarparu gan y cyd-gysylltwyr presennol. Serch hynny, gobeithir y bydd y cynigion manwl ar gael o fewn yr ychydig fisoedd nesaf.

Yn y cyfamser, mae'r swyddogion wedi cyfarfod â'r 3 cyd-gysylltydd i drafod y syniad o greu gronfa ddata AAA gyffredinol ledled Cymru. Un o'r materion allweddol, serch hynny, yw sut fydd y cronfa ddata hon yn integreiddio gyda'r cronfeydd data eraill sydd eisoes yn bodoli, neu yn cael eu datblygu yn enwedig ym meysydd addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor am gynnydd y cynllun yn yr adroddiad nesaf.

### 2. CYMWYSTERAU A'R CWRICWLWM – TGAU GALWEDIGAETHOL

Bydd gan y TGAU galwedigaethol arfaethedig yr un statws â'r TGAU academaidd, er fel arfer, dyfarniadau dwbl fyddant (hy, byddant ddwywaith maint y TGAU academaidd).

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chyn hynny y Swyddfa Gymreig, wedi bod yn gefnogol iawn i fentrau sy'n gwella statws y cymwysterau galwedigaethol a'r nifer sy'n manteisio arnynt. Fel rhan o'r broses o ddiwygio'r cymwysterau ôl 16 a ddeillia o'r ymgynghoriad *Ennill Cymhwyster i Lwyddo,* cyhoeddodd Peter Hain, a oedd yn Weinidog yn y Swyddfa Gymreig bryd hynny, fesurau i uwchraddio a hybu proffil y GNVQ fel cymhwyster amgenach, ond yr un mor werthfawr, yn y maes academaidd.

Erbyn hyn yn y lefelau uwch, fe adnabyddir y GNVQ fel y 'Safon A Galwedigaethol'. Bydd y

TGAU galwedigaethol arfaethedig yn adeiladu ar hyn, ond mae'n bwysig cydnabod natur wahanol y cymwysterau galwedigaethol. Er eu bod, ac y byddant yn parhau i fod, yr un mor drwm â'r TGAU academaidd, fe'u cynlluniwyd i fod yn wahanol o ran eu natur. Mewn rhai achosion bydd y myfyrwyr hynny sy'n anaddas ar gyfer y maes academaidd yn medru cyflawni'u potensial yn y maes galwedigaethol, **ac** i'r gwrthwyneb.

Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf yn cyfeirio at QAA (Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd), ond yn hytrach dylai gyfeirio at y QCA (Yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm), chwaer-gorff rheoliadaol ACCAC. Bydd y cyrff rheoliadol (ACCAC, QCA a'r CCEA) yn gweithio gyda'i gilydd i osod meini prawf ac i achredu'r cymwysterau ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**3. Y FAGLORIAETH GYMREIG**

Fel y nodais yn y llythyr at Aelodau'r Pwyllgor dyddiedig 7 Mawrth, rydym yn cymryd camau ardderchog tuag at wireddu ein hymrwymiad i lywio Bagloriaeth Gymreig. Gwahoddwyd Pwyllgorau dyfarnu i gyflwyno tendr ar gyfer datblygu a llywio'r prosiect ar 2 Mawrth. Wedi derbyn y tendrau, gobeithir y byddwn yn medru gwneud cyhoeddiad ynghylch y cytundeb ym mis Mai.

**4. LLEIHAU'R BWLCH**

Mae lleihau'r bwlch perfformiad rhwng ysgolion yn ganolog i'r gwaith o wella safonau. Er mwyn cyflawni hyn, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi sefydlu tasglu ar y cyd o dan nawdd Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.

Bydd y tasglu yn canfod y materion addysgol, cymdeithasol ac ariannol sy'n cyfrannu at y gwahaniaethau rhwng ysgolion, ac yn awgrymu dulliau o fynd i'r afael â'r problemau hyn ynghyd ag adnabod a lledaenu arferion da. Bydd y tasglu yn canfod y ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at berfformiad da cyson mewn ysgolion. Wrth argymell ffyrdd o wneud y ffactorau allweddol yma'n berthnasol i i bob Awdurdod Addysg Lleol, bydd rhaid rhoi sylw penodol i rolau a chyfrifoldebau'r Cynulliad. Bydd y tasglu'n cyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r Cyngor Partneriaeth ac yn gofyn am gyngor arbenigwyr pan fydd angen. Bydd y grp yn cynnal eu cyfarfod cyntaf ym mis Ebrill a disgwylir iddynt gyflwyno'u hadroddiad cyntaf i'r Cyngor Partneriaeth rhyw 12 mis wedyn.

**5. CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU - CYLLIDO AR GYFER Y DYFODOL**

Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes cafwyd cyflwyniad gan Gadeirydd a Phrif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar gynnydd y pwyllgor hyd yn hyn a'i flaenraglen waith. Un o'r materion a gododd o'r cyflwyniad oedd cyllido'r Cyngor yn y

dyfodol.

Gofynnodd John Andrews, y Cadeirydd, i mi ailedrych ar y rhagdybiaeth y dylai'r Cyngor gael ei gyllido'n sylweddol gan incwm cofrestru yn 2001-02. Teimla y byddai hyn yn rhoi cyfnod 'gweithredu' hirach i ddangos i athrawon bod gwerth i'r ffioedd cofrestru.

Yr wyf wedi adolygu'r cyllidebau addysg ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac rwyf yn obeithiol y byddwn yn canfod yr arian sydd ei angen i fodloni anghenion ychwanegol presennol y Cyngor. Dylai hyn eu galluogi i ohirio rhag cyflwyno'r tâl, ac yna codi tâl yn unol â Lloegr.

Byddaf yn ymgynghori gyda'r Gweinidog Cyllid maes o law ac yn rhoi fy nghynnig ger bron y Pwyllgor yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

**6. DIWYGIADAU I REOLIADAU CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU (SWYDDOGAETHAU) 2000 AC I ORCHYMYN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU (SWYDDOGAETHAU YCHWANEGOL) 2000**

Hwyrach eich bod yn cofio y llynedd bod rheoliadau wedi eu cyflwyno yn cwmpasu cofrestru athrawon gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, a gorchymyn yn cwmpasu'r wybodaeth sydd i'w chadw am y rhai nad ydynt ar y rhestr.

Pan gafodd y rheoliadau a'r gorchymyn eu cyflwyno, nid oedd yn bosibl cynnwys y mathau o orchmynion disgyblu y gellir eu rhyddhau gan y Cyngor, gan nad oedd yr ymgynghoriad ar y swyddogaeth ddisgyblu wedi'i gwblhau. Gan fod y broses ymgynghori bellach wedi'i chwblhau, mae'n fwriad gennym ddiwygio'r rheoliadau a'r gorchymyn i alluogi i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gofnodi amodau unrhyw orchymyn disgyblu y mae'n ei orfodi a chadw'r manylion ar y gofrestr.

Mae'r papurau ar gyfer y cyfarfod heddiw yn cynnwys copi o'r gorchymyn a'r rheoliadau diwygio arfaethedig a ddosbarthwyd yn ddiweddar at sefydliadau oedd wedi dangos diddordeb yn y pwnc. Os carech wneud unrhyw sylwadau, a fyddech gystal â'u hanfon drwy law y Clerc erbyn 11 Mai 2001.

**7. SEFYDLIADAU HYFFORDDIANT CENEDLAETHOL**

Ar y cyd â Gweinidogion yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yr wyf wedi cyhoeddi papur ymgynghorol ar ddatblygu rôl y rhwydwaith Sefydliadau Hyfforddiant Cenedlaethol. Mae gan y cyrff yma sydd o dan arweiniad y cyflogwyr, ystod bwysig o swyddogaethau, gan gynnwys adolygu safonau galwedigaethol yn eu meysydd eu hunain, ac yn ogystal mae ganddynt rôl allweddol yn ein hagenda sgiliau. Mae Tasgluoedd Sgiliau Cymru a Lloegr ill dau wedi amlinellu'r angen i gryfhau'r rhwydwaith ac adeiladu ar ei allu cynhenid i gyflwyno gwaith

defnyddiol. Daw’r cyfnod ymgynghori i ben ar 12 Ebrill.

**8. CYNGOR CENEDLAETHOL CYMRU DROS ADDYSG A HYFFORDDIANT**

Cynhaliodd y Cyngor Cenedlaethol ei gyfarfod cyntaf ar 28 Chwefror ac fe ganolbwyntiodd y drafodaeth ar faterion busnes mewnol a llywodraethu corfforaethol. Cefais gyfle hefyd i gyfarfod a chroesawu Aelodau’r Cyngor yn dilyn ail gyfarfod llawn y Cyngor Cenedlaethol ar 15 Mawrth.

Mae prosiect cyflwyno ETAP bellach bron a dod i ben. Yr ydym yn parhau i fod ar y trywydd iawn i drosglwyddo holl fusnes TEC a FEFCW (Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru) at y cyrff olynol er mwyn galluogi’r cyrff hyn i fod yn llwyr weithredol erbyn 1 Ebrill. Ar ôl i’r prosiect ddod i ben yn ffurfiol, bydd trefniadau gwaith presennol y bartneriaeth rhwng y cyrff olynol yn parhau i fod ar gael ar gyfer cydlynu datblygiad dysgu ar ôl 16 ymhellach.

**9. ESTYN**

Ar 12 Chwefror, cyfarfum â’r Prif Arolygydd, Susan Lewis, i glywed ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn academaidd 1999-2000. Yr oedd Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn bresennol.

Mae’r cylch gwaith a roddwyd i Estyn gan y Cynulliad ar gyfer 2000-01 wedi yn ei gynnwys yn y papurau er mwyn i’r Pwyllgor eu nodi. Bydd copïau o gylch gwaith 2001-02 ar gael i’r Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod dyddiedig 4 Ebrill.